**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

Cofnodion y cyfarfod misol yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan ar yr **3ydd o Ebrill 2025** am **7:00 yr hwyr.**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), Raymond Jones, Huw Pritchard (Pentrefelin) Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Richard Parry (Bryncir), Enid Egginton, John Jones (Garndolbenmaen), Gwilym Evans (Prenteg) Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Cynghorydd June Jones, Cynghorydd Stephen Churchman (Cynghorwyr Cyngor Gwynedd), |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Clifford Williams (Garndolbenmaen), Jess Williams (Penmorfa), Edward Evans (Bryncir) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Iddon Edwards (Penmorfa) |
| 4. | Datgan buddiant: | Neb |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion | GE yn cynnig a HP yn eilio. |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion | <u>Biniau Halen</u> – Trafodwyd y ceisiadau am finiau halen ymhellach a phenderfynwyd bod angen gwneud ymholiadau pellach parthed y ddau gais.<br><br>** JT a GEH yn ymuno hefo'r cyfarfod<br><br><u>Golau Stryd Ddiffygiol Prenteg -</u> Cafwyd ymateb gan Colin Worth, Rheolwr Gwasanaethau Goleuo yn dweud bod archwiliadau nos yn cael eu cynnal unwaith y mis. Roedd y golau ger yr hen ysgol wedi bod i ffwrdd am 7 wythnos yn dilyn y storm sydd yn golygu y cafodd ei fethu pan wnaethpwyd yr archwiliad nos. Mae'r golau bellach wedi ei drwsio. |
| 7. | Mynwentydd | <u>Mynwent Bethel</u> – Adroddodd y Clerc fod y gwaith tacluso ym mynwent Bethel wedi'i gwblhau. MLW a JJ wedi bod heibio ac yn hapus hefo'r gwaith.<br><br>Mae yna waith pellach angen ei wneud yn y fynwent i ddiffinio ardaloedd claddu llwch a phlant yn well ac hefyd i drwsio'r peipen diffygiol ar y sied. Gofynnwyd i'r Clerc drefnu i gael prisiau ar gyfer y gwaith. Mae JJ yn hapus i gyfarfod y contractwyr yn y fynwent i egluro'r gwaith sydd ei angen. |
| 8. | Llwybrau Cyhoeddus | <u>Llwybr Cyhoeddus ger y Ganolfan, Golan</u> – Adroddwyd fod y llwybr yma bellach wedi ei ail agor. Adroddodd y Swyddog Llwybrau fod yna gerrig wedi disgyn o wal y Ganolfan ac |

| | | |
|---|---|---|
| | | angen sylw. Trafodwyd hyn gan Bwyllgor y Ganolfan Gymdeithasol ac maent yn gobeithio gwneud y gwaith trwsio yn fuan.<br><br><u>Llwybr Tyn Caea, Garndolbenmaen</u> – Mae cwyn wedi'i dderbyn yn adrodd am rwystr ar y llwybr yma – giât wedi ei glymu â rhaff. Clerc i ymchwilio ymhellach i weld pwy sydd â chyfrifoldeb dros y llwybr.<br><br><u>Llwybr Bron y Foel a Phont Faen, Pentrefelin</u> – Arwyddion dal heb gael eu gosod yma. Clerc i gysylltu gyda'r Uned Llwybrau.<br><br><u>Llwybr Hendre Cennin</u> – Coed dal heb gael eu torri. Clerc i gysylltu gyda'r contractiwr eto.<br><br><u>Llwybr Ynys Cynhaearn</u> – Rŵan bod y tywydd yn sych dywedodd RJ ei fod am gysylltu gyda'r Uned Llwybrau er mwyn ail ymweld a'r llwybr yma ac i geisio gael datrysiad. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi | <u>Garndolbenmaen</u> – Mae problemau gyda dŵr yn y pentref yn parhau. Mae'n cael effaith ar yr ysgol ac soniwyd bod yr ysgol wedi gorfod cau fwy nag unwaith oherwydd diffyg dŵr. Dywedodd JJ bod angen cael gwybod gan Dŵr Cymru beth maent yn bwriadu ei wneud i ddatrys y mater. Clerc i gysylltu gyda Dŵr Cymru.<br><br>Cafwyd dathliad arbennig yn yr ysgol yn ddiweddar i ddathlu'r ysgol yn gant a hanner oed. Llongyfarchiadau i'r ysgol.<br><br><u>Bryncir</u> – Dim i'w adrodd.<br><br><u>Prenteg</u> – Adroddwyd bod arwydd wrth yr aros fan bws wedi disgyn. Y Cynghorydd June Jones am adrodd am hyn.<br><br><u>Penmorfa</u> – Soniwyd bod yna olau stryd ymlaen drwy'r adeg ger Ty'n Berllan. Clerc i adrodd am hyn.<br><br><u>Golan/Cwmystradllyn</u> – Dywedwyd nad oes gwaith pellach wedi cael ei wneud yn yr hen waith dŵr yng Nghwmystradllyn er i Dŵr Cymru ddweud y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau. Clerc i gysylltu gyda Dŵr Cymru.<br><br>Soniwyd hefyd bod ochrau'r ffordd yng Nghwmystradllyn yn erydu oherwydd bod llawer o geir yn parcio ar ochr y ffordd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Pentrefelin – Adroddwyd fod yna gafn mawr wedi ei osod ger y fainc ar Lôn Tabor fel cofiant i berson o'r pentref bu farw'n ddiweddar.<br><br>*** Gadawodd Cynghorydd June Jones y cyfarfod.<br><br>Llwybr ger yr Hen Bost - Does dim datrysiad i'r mater yma. Nid yw Cyngor Gwynedd yn mynd i wneud y gwaith oherwydd mai cilffordd gyfyngedig yw'r ffordd yma sydd dim ond yn caniatáu teithio ar droed, ar gefn ceffyl, a gyda cherbydau nad ydynt yn cael eu gyrru'n fecanyddol (fel beiciau pedal a cherbydau a dynnir gan geffylau). Gofynnwyd sut bod ceisiadau cynllunio wedi cael eu caniatáu 20 mlynedd neu fwy yn ôl i adeiladu tai ar hyd y gilffordd yma gyda modurdai. Clerc i wneud ymholiadau gyda'r Adran Gynllunio. |
| 10 | Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol | **Taliad am gostau ychwanegol gweithio gartref - Gorfodol**<br><br>Mae'n rhaid i bob cyngor dalu £156 y flwyddyn i'w aelodau (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol y bydd yn rhaid i'r aelwyd eu talu (gan gynnwys gwres, golau, ynni a band eang) o ganlyniad i weithio gartref.<br><br>**Taliad penodol am nwyddau traul – Gorfodol**<br><br>Mae'n rhaid i gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall mae'n rhaid i gynghorau ei gwneud yn bosibl i'w haelodau hawlio ad-daliad llawn am gost eu nwyddau traul swyddfa.<br><br>Mater i bob cyngor yw gwneud a chofnodi penderfyniad polisi mewn perthynas â phryd a sut y caiff y taliadau eu gwneud ac a ydynt yn cael eu talu'n fisol, yn flynyddol neu fel arall. Dylai'r polisi hefyd nodi a fydd unrhyw daliadau a wneir i aelod sy'n gadael neu sy'n newid ei rôl yn ystod y flwyddyn ariannol yn cael eu hadennill, a sut.<br><br>**Lwfans Mynychu – Gorfodol**<br><br>Gall pob cyngor benderfynu cyflwyno lwfans mynychu i'r aelodau. Ni ddylai swm pob taliad fod yn fwy na £30. Ni fydd gan aelod sydd mewn colled ariannol hawl i gael lwfans mynychu ar gyfer yr un digwyddiad. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Am fod y taliad am fynychu yn ddewisol, dylai'r cyngor, yn ei Gyfarfod Blynyddol cyntaf, benderfynu'n ffurfiol p'un a ddylid gwneud y taliadau hyn ai peidio.<br>Os bydd y cyngor yn penderfynu o blaid lwfansau mynychu, rhaid iddo lunio Cynllun ar gyfer ei fabwysiadu'n ffurfiol, gwneud darpariaeth iddo gael ei gyhoeddi a hysbysu'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.<br><br>Yr uchafswm gorfodol ar gyfer pob digwyddiad cymwys yw £30. Nid oes unrhyw isafswm penodedig.<br><br>Rhaid i daliadau am fynychu ymwneud â busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy a nodir yn Rheolau Sefydlog y cyngor neu, fel arall, drwy benderfyniad penodol. Dylai'r cynllun nodi ar gyfer pa ddigwyddiadau y gwneir taliadau.<br><br>Bydd gan bob aelod o'r cyngor yr hawl i gael y taliad am fynychu'r digwyddiadau a nodir yn y cynllun, ond gall aelod unigol wrthod derbyn y taliad drwy hysbysu'r swyddog priodol (yn ysgrifenedig).<br><br>**Penderfyniad:** Mabwysiadwyd yr uchod<br><br>**Digolledu am Golled Ariannol: Penderfyniad 8**<br><br>Taliad dewisol yw digolledu am golled ariannol.<br><br>Mae'r Panel wedi penderfynu y dylai'r taliad hwn gyd-fynd â chyfradd ddyddiol ASHE, sef £126.74 am ddiwrnod llawn a £63.37 am hanner diwrnod.<br><br>**Uwch Rôl – Dewisol Hyd at 3 Aelod**<br><br>Mae'r taliad ar gyfer aelodau sy'n ymgymryd ag uwch swyddogaeth yn swm blynyddol o £500.<br><br>**Penderfyniad:** Gwrthod yr uchod.<br><br>**Maer neu Gadeirydd – Dewisol hyd at Uchafswm i £1,500**<br><br>Gall Cynghorau Tref a Chymuned ddarparu taliad i Faer neu Gadeirydd y Cyngor hyd at uchafswm o £1,500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £156 ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â gweithio gartref a'r swm sefydlog o £52 ar |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyfer nwyddau traul swyddfa a'r uwch gyflog o £500 os hawlir y rhain.<br>Er eglurder, mae Cynghorau yn talu NAILL AI taliad maer neu gadeirydd o hyd at £1500 NEU daliad uwch gyflog o £500, ond nid y ddau.<br><br>**Penderfyniad:** Gwrthod yr uchod<br><br>**Dirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd – Dewisol hyd at Uchafswm o £500**<br><br>Gall Cynghorau Tref a Chymuned ddarparu taliad i Ddirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor hyd at uchafswm o £500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £156 ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â gweithio gartref a'r swm sefydlog o £52 ar gyfer nwyddau traul swyddfa a'r uwch gyflog o £500 os hawlir y rhain.<br>Er eglurder, mae Cynghorau yn talu NAILL AI taliad dirprwy faer neu ddirprwy gadeirydd o hyd at £500 NEU daliad uwch gyflog o £500, ond nid y ddau.<br><br>**Penderfyniad:** Gwrthod yr uchod.<br><br>**Lwfans Presenoldeb – Dewisol**<br><br>Gall pob Cyngor benderfynu cyflwyno lwfans mynychu i'r aelodau. Ni chaiff unrhyw daliad fod yn fwy na £30. Ni fydd gan aelod sydd mewn colled ariannol hawl i gael lwfans mynychu ar gyfer yr un digwyddiad.<br><br>**Penderfyniad:** Gwrthod yr uchod<br><br>**Colled Ariannol – Dewisol**<br><br>Gall Cynghorau Cymuned a Thref dalu iawndal am golled ariannol i bob un o'u haelodau, lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyddo, o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy fel a ganlyn:<br>Hyd at £59.81 am bob cyfnod nad yw'n fwy na 4 awr<br>Hyd at £119.62 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond nad yw'n fwy na 24 awr<br><br>**Penderfyniad:** Mabwysiadwyd yr uchod.<br><br>**Teithio a Chynhaliaeth – Dewisol** |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gall Cynghorau Cymuned a Thref benderfynu talu costau teithio a/neu gynhaliaeth pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy. Rhaid i daliadau o'r fath fod yn gostau gwirioneddol teithio ar gludiant cyhoeddus neu lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau ei Fawrhydi.<br>Os yw'r Cyngor Tref neu Gymuned yn penderfynu bod angen arhosiad dros nos ar gyfer dyletswydd benodol, gall roi awdurdod i ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w aelodau.<br><br>**Penderfyniad:** Mabwysiadwyd<br><br>**Costau Gofal neu Gynhorthwy Personol - Gorfodol**<br><br>Rhaid i'r Cyngor Cymuned ddarparu taliad tuag at gostau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol). Rhaid i hyn fod am y costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan aelodau i'w galluogi i gyflawni busnes swyddogol neu ddyletswyddau cymeradwy.<br><br>**Penderfyniad:** Mabwysiadwyd |
| 11 | Ymgynghoriad Uchelgais Gogledd Cymru | Clerc i ymateb yr ymgynghoriad gan nodi bod ymdeimlad fod pentrefi bach y wlad dal yn cael eu hesgeuluso. |
| 12 | Lleoliad y Cyfarfod Blynyddol | Penderfynwyd cynnal y cyfarfod blynyddol yn Neuadd Goffa Penmorfa. |
| 13 | Gohebiaeth | a. Arolygon Cymunedol o Dan Adrannau 25 a 31 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 – Dyddiad Cau 23/05/2025<br>b. Arwyddion Pont y Traeth – Cyngor Cymuned Llanfrothen hefyd yn fodlon rhannu'r gost. |
| 14. | Gohebiaeth Ychwanegol | a. Diweddariad Grŵp Cleifion Hwb Eifionydd<br>b. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Trosglwyddo Swyddogaethau i Gomisiwn Ffiniau ac Etholiadau Cymru<br>c. Perthyn – Llythyr agored i Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd ar Bolisi Gosod Lleol<br>ch. Archwilio Cymru – Archwiliad 2024/25 |

| | | |
|---|---|---|
| 15. | Cynllunio | Rhestrau: 3/3, 10/3, 17/3, 24/3 – Dim Ceisiadau |
| 16 | Materion Ariannol | Ceisiadau am arian:<br>a. CFFI Dyffryn Madog<br>b. CFFI Eryri<br><br>Monitro'r Gyllideb: Dim gorwariant<br><br>Biliau i'w talu:<br>Cyflog Clerc £331.73<br>Ffôn £15.00<br>Cyfrifiadur £20.00<br>HMRC £82.93<br>Veolia £28.54<br>HSBC £8.00<br><br>Ychwanegwyd:<br><br>Madog Gardencare £1,600<br><br>Derbyniadau;<br><br>Llog £181.62<br><br>Balansau Cyfrifon:<br><br>Cadw – £35,537.55<br>Cyfredol- £1,175.59 |
| 17. | Gohebiaeth i'r wasg | • Problemau dŵr Garndolbenmaen<br>• Dathliad Ysgol Garndolbenmaen<br>• Seddi Gwag |